

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 12 Mehefin 2018**

**Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd

**27 Mehefin 2018**

---

### PWNC

Eitem 6:AIL-FODELU'R GWASANAETH IEUENCTID

---

### PENDERFYNIAD

1. Derbyn yr adroddiad a neilltuo hyd at £50,000 o'r Gronfa Drawsffurfio ar gyfer sefydlu cronfa i gynorthwyo Cyngorau Cymuned sydd yn dymuno cynnal Clwb Ieuencid i bontio'r sefyllfa ariannol hyd y byddent yn sefydlu eu trefn ariannu eu hunain ar gyfer Ebrill 1af 2019
  2. Dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i sefydlu trefn reoli ddarbodus ar gyfer rheoli gwariant y gronfa.
- 

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ar 13 Mawrth 2018, bu i'r Cabinet benderfynu ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuencid yn unol â'r cyfeiriad a nodwyd yn Opsiwn 3 gydag addasiadau i liniaru effeithiau oedd wedi eu hadnabod. O ganlyniad mae'r Gwaith Ieuencid wedi cychwyn ar weithredu'r ail-fodelu er mwyn sicrhau gwasanaeth i bobl ifanc ym Medi 2018.

Ar y 3ydd o Fai 2018 yn dilyn rhybudd o gynnig penderfynodd y Cyngor Llawn ofyn i'r Cabinet adolygu elfennau penodol o'r ail fodelu. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r camau oedd wedi eu cymryd ac yn rhoi cyfle i'r Cabinet ystyried unrhyw gamau pellach mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor.

---

### DATGANIADAU O Fuddiant Personol ac Unrhyw Ollyngiadau Perthnasol a Ganiatawyd gan y Pwyllgor Safonau

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. W Gareth Roberts gan fod ei fab yng nghyfraith yn gweithio i'r Gwasanaeth Ieuencid.

---

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 12 Mehefin 2018**

**Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd

**27 Mehefin 2018**

---

### **PWNC**

Eitem 7:ADRODDIAD YSGOL BRO IDRIS

---

### **PENDERFYNIAD**

Yn gyffredinol, mabwysiadu'r argymhellion yn deillio o adroddiad annibynnol Gareth Williams er mwyn galluogi'r Adran Addysg i'w hymgorffori fel rhan greiddiol o brosesau ad-drefnu a weithredir ganddi ar y cyd a rhan-ddeiliaid eraill mewn dalgylchoedd eraill i'r dyfodol.

---

### **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Comisiynwyd ymgynghorydd annibynnol i gynnal 'Arolwg o'r drefn o ddatblygu Ysgol Bro Idris, Dolgellau' er mwyn dysgu gwersi yn dilyn yr ad-drefnu a fu yn y dalgylch, ac yn arbennig yn sgil y ffaith fod ehangder a maint y cynllun hwn yn unigryw. Roedd angen ymateb i'r argymhellion yn adroddiad Gareth Williams

---

### **DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Peredur Jenkins ar yr eitem gan fod y ddau yn aelodau o'r Bwrdd Llywodraethol Ysgol Bro Idris ac roedd cysylltiad personol oedd yn berthnasol i elfen o'r adroddiad..

Nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac felly nid oedd rhaid gadael y cyfarfod.

---

### **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd hefyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 12 Mehefin 2018**

**Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd

**27 Mehefin 2018**

---

### PWNC

Eitem 8: BAND B RHAGLEN YSGOLION UNFED GANRIF AR HUGAIN

---

### PENDERFYNIAD

- Cymeradwyo mewn egwyddor blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer Band B y Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain yn unol â'r adroddiad.
  - Aros am ganlyniad y broses o sefydlu Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor cyn mabwysiadu'r rhaglen derfynol
- 

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn 2013 sefydlwyd rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o fuddsoddi oddeutu £1.4bn mewn adeiladau addysg. Yn niwedd blwyddyn ariannol 2017/18 daeth gwedd gyntaf (Band A) Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain y Llywodraeth i ben. Bellach mae'r Llywodraeth yn cyfeirio'i golwg at ail wedd y Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain (Band B), a fydd yn cychwyn yn Ebrill 2019. Roedd angen adnabod blaenoriaeth prosiectau cychwynnol er cyflwyno cais ar gyfer arian y rhaglen i'r Llywodraeth.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 12 Mehefin 2018**

**Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd

**28 Mehefin 2018**

---

### **PWNC**

Eitem 9: CYNNIG GOFAL PLANT 30 AWR AR GYFER PLANT 3-4 OED

---

### **PENDERFYNIAD**

- Cytuno i'r uned gofal plant Gwynedd a Môn, Adran Plant a Theuluoedd cydweithio gyda Chyngor Conwy gan weithredu fel Awdurdod Arweiniol i weinyddu gofal plant 30 awr ar gyfer plant 3-4 oed gan weithredu yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru.
  - Fod gweithredu hyn yn amodol fod yr Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc yn cadarnhau'r trefniadau llywodraethu rhwng-awdurdod a sicrhau fod cytundeb partneriaeth briodol mewn lle gyda Chyngor Gwynedd a Chynghorau Ynys Môn a Conwy.
- 

### **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i ddarparu, o fewn tymor presennol y Llywodraeth, 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 neu 4 mlwydd oed am 48 wythnos y flwyddyn. Ers Medi mae'r cynnig wedi ei dreialu gan y Llywodraeth, ac mae Cynghorau Gwynedd a Môn wedi bod yn gweithio ar y cyd ar y prosiect.

Ym Mis Ebrill bu i'r Llywodraeth gytuno i gynnwys Cynghorau Gwynedd a Môn yn llawn yn y cynllun. Bu i'r Cabinet gytuno yn Chwefror 2017 i sefydlu Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn ond bellach mae'n fwriad gan y Llywodraeth gynnig i Gyngor Conwy ymuno a'r cynllun mewn partneriaeth a Chynghorau Gwynedd a Môn. Roedd angen cymeradwyaeth ar gyfer ymestyn y prosiect ac i Gyngor Gwynedd ysgwyddo rôl Awdurdod Arweiniol.

---

### **DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

### **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 12 Mehefin 2018**

**Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd

**27 Mehefin 2018**

---

### **PWNC**

Eitem 10: CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-23: CAIS AM ADNODDAU O'R GRONFA DRAWSFFURFIO

---

### **PENDERFYNIAD**

I neilltuo £104,747 o'r Gronfa Trawsffurfio, sef £51,690 yn 2018/19 a £53,057 yn 2019/20 i gefnogi gweithrediad y flaenoriaeth 'Gwireddu Arbedion' o fewn cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023.

---

### **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn dilyn mabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 ar 8 Mawrth mae 'Gwireddu Arbedion' wedi ei adnabod fel blaenoriaeth. Mae angen penderfyniad ar yr adnoddau fydd ar gael i gefnogi'r rhaglen gwireddu arbedion newydd er mwyn gallu symud y gwaith yn ei flaen.

---

### **DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

### **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---